Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth

Mehefin 2019

## Y cefndir

### Y Bil

**1.** Cafodd Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU[1] (y Bil) ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Medi 2018, a chwblhaodd ei gyfnod pwyllgor ar 20 Tachwedd 2018. Cyhoeddwyd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Bil Cyhoeddus, ar 21 Tachwedd 2018.[2]

**2.** Nid yw'r Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i drefnu eto.

**3.** Yn gryno, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch fframwaith cyfreithiol i'r Deyrnas Unedig adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin wrth sefydlu system newydd yn seiliedig ar arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a rheolwyr tir.[3]

**4.** Mae gwybodaeth fanylach am ei ddarpariaethau, gan gynnwys nodiadau esboniadol, ar gael ar wefan Senedd y DU.[4]

---

[1] Bil Amaethyddiaeth 2018-19, HC 266

[2] Bil Amaethyddiaeth 2018-19, HC 292

[3] Llywodraeth y DU, Bil Amaethyddiaeth: Nodiadau Esboniadol, Medi 2018 (Nodiadau esboniadol), paragraff 1

[4] Senedd y DU, Bil Amaethyddiaeth 2017-19

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Ar 4 Hydref 2018, gosododd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (MCD) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r Bil, fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin.[5]

**6.** Gwnaethom adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ar 4 Ionawr 2019 (yr adroddiad cyntaf).[6]

**7.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'n hadroddiad cyntaf hyd yn hyn.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

**8.** Ar 26 Mawrth 2019, gosododd Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Rhif 2) (MCD Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil Amaethyddiaeth.[7]

**9.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol adrodd ar MCD Rhif 2 erbyn 11 Mehefin 2019.[8]

**10.** Mae MCD Rhif 2 yn nodi darpariaethau atodol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer erbyn hyn. Mae'n nodi'r canlynol:

> "Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Amaethyddiaeth (fel y'i cyflwynwyd ar 12 Medi 2018) ar 4 Hydref. Nodwyd yn y Memorandwm hwnnw bod dau fater yn peri pryder inni, sef Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth a'r Ardoll Cig Coch, ac nad oeddent wedi cael eu datrys mewn ffordd a oedd yn ein bodloni. Nodwyd hefyd y byddai gwaith yn parhau i ddatrys y pryderon hynny wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy Senedd y DU. Ers i'r Memorandwm cyntaf gael ei gyhoeddi, mae'r Bil wedi cael ei ddiwygio wrth i Dŷ'r Cyffredin graffu

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Amaethyddiaeth, Hydref 2018

[6] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth, Ionawr 2019

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019

[8] Adroddiad y Pwyllgor Busnes, yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Amaethyddiaeth, Ebrill 2019

arno, ac rydym wedi sicrhau cytundeb gyda Llywodraeth y DU ar y ddau fater yr oedd anghytundeb yn eu cylch.

Mae'r Memorandwm Atodol hwn yn ymdrin â'r newidiadau hynny a wnaed i'r Bil yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer. Mae hefyd yn esbonio'r cytundeb a sicrhawyd gyda Llywodraeth y DU ar sut y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pwerau sy'n gysylltiedig â Rhan 7 (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth) fel y bo buddiannau pob rhan o'r DU yn cael eu hystyried yn llawn. Mae'r diwygiadau a wnaed a'r cytundeb a sicrhawyd yn mynd i'r afael â'r ddau fater y mynegwyd pryder yn eu cylch ym mharagraff 23 o'n Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y gallai rhagor o newidiadau gael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi. Rhaid ystyried y Memorandwm cyntaf a'r Memorandwm Atodol gyda'i gilydd (ynghyd ag unrhyw Femoranda Atodol pellach a allai gael eu gosod gerbron y Cynulliad mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau a gaiff eu gwneud yn y dyfodol) wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio.

Mae'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer i'w gweld yn Rhan 7 (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth); Rhan 8 (Yr Ardoll Cig Coch); Atodlen 3 (Darpariaethau o ran Cymru), a Rhan 10 o'r Bil (Y Darpariaethau Terfynol). Mae rhifau'r cymalau a ddefnyddir isod yn cyfeirio at y fersiwn o'r Bil y gorchmynnwyd ei argraffu ar 20 Tachwedd ac a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd (y fersiwn fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod Pwyllgor)."[9]

**11.** Mae paragraffau 11 i 24 o MCD Rhif 2 yn cynnwys rhagor o fanylion ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth, yr Ardoll Cig Coch, cymorth ariannol ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Atodlen 3, Rhan 3), ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol (Atodlen 3, Rhan 4), ac ar ddarpariaethau ategol, terfynol y Bil (Rhan 10).

**12.** Mae MCD Rhif 2 yn nodi'r rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth:

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, paragraffau 8 i 10. Gweler paragraffau 25 i 27 hefyd.

> "Fel y nodwyd yn y Memorandwm cyntaf, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen deddfwriaeth er mwyn darparu sylfaen gyfreithiol ar gyfer cymorth i ffermwyr yn y dyfodol, ar ôl Brexit, wrth inni ymadael yn raddol â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Drwy gynnwys darpariaethau yn awr ym Mil Amaethyddiaeth y DU, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cefnogi ffermwyr yng Nghymru, a byddant yn gallu gwneud yr hyn a fydd orau i Gymru.
>
> Mae pŵer newydd wedi'i gynnwys yn y Bil hefyd i ailddosbarthu'r ardoll cig coch er mwyn datrys yr anghysonderau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn gyfle delfrydol i gael y pwerau angenrheidiol i gyflwyno cynllun priodol a fydd yn cywiro'r anghydbwysedd hwn."[10]

**13.** O ran y Bil fel y'i diwygiwyd, mae MCD Rhif 2 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru:

> "Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin mewn perthynas â'r Ardoll Cig Coch (Rhan 8), y gwelliannau i Atodlen 3 (Darpariaeth o ran Cymru) a'r gwelliant i Ran 10 (Darpariaethau Terfynol). Mae hefyd yn fodlon â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth o gofio'r cytundeb a sicrhawyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar arfer y pŵer hwnnw i wneud rheoliadau."[11]

**14.** Mewn llythyr atom ar 26 Mawrth 2019, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> "(…) rydym wedi llwyddo i ddiwygio'r Bil i gynnig ffyrdd addas o ddatrys y broblem hirdymor o gael y lefi cig coch yn ôl. (…) Mae'r Cymal newydd yn galluogi Gweinidogion, drwy weithredu ar y cyd, i sefydlu cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau amaethyddol ym Mhrydain Fawr ailddosbarthu'r lefi rhwng ei gilydd. Bydd swyddogion bellach yn parhau i ddatblygu cynllun ar yr un pryd â'r ddeddfwriaeth sy'n mynd

[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, paragraffau 29 a 30

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, paragraff 31

> drwy'r Senedd i sicrhau bod system deg wedi'i sefydlu cyn gynted â phosib."[12]

**15.** Mewn perthynas â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth, mae'r llythyr yn nodi'r canlynol:

> "(...) ein bod wedi sicrhau cytundeb sylweddol gyda Llywodraeth y DU i reoli'r defnydd o bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ym Mil Amaethyddiaeth y DU o ran sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Mae hyn yn sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn. (...) Mae'r cytundeb yn pennu dull cadarn a thryloyw i gynnwys Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau yn ogystal â dull o ddatrys anghydfodau. Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y Llywodraethau."[13]

**16.** Mae'r dull ar gyfer ymdrin â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, fel y crybwyllwyd yn llythyr y Gweinidog, wedi'i godeiddio yn y Cytundeb Dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau'r WTO yn y Bil Amaethyddiaeth (Cytundeb Dwyochrog), a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2019.

**17.** Mae'r Cytundeb Dwyochrog yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwneud rheoliadau o dan gymal 28 yn y lle cyntaf[14] (Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth: rheoliadau) a gweithrediad parhaus rheoliadau Rhan 7.

**18.** Mewn perthynas â gwneud rheoliadau yn y lle cyntaf:

- Bydd swyddogion Defra yn rhannu cynigion â'u swyddogion cyfatebol mewn gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer rheoliadau i'w gwneud o dan bwerau Sefydliad Masnach y Byd yn y Ddeddf Amaethyddiaeth (fel y daw os bydd y Bil yn dod yn Ddeddf).
- Bydd rheoliadau drafft yn cael eu cyflwyno i'r pedwar Gweinidog amaethyddiaeth yn y DU gyda'r nod o sicrhau cytundeb, a chyfnewid llythyrau'n dilyn hynny.
- Dylai'r broses ar gyfer rhannu rheoliadau ac ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig gael ei llywio gan yr egwyddorion a

[12] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 26 Mawrth 2019

[13] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 26 Mawrth 2019

[14] Dyma gymal 26 yn y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 12 Medi 2018 (HC 266)

nodir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin. Mae'r gweinyddiaethau wedi ymrwymo i geisio mynd yn eu blaenau drwy gytundeb. Ond os nad yw hynny'n bosibl, caiff y mater ei uwchgyfeirio'n unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng llywodraethau ac â chytundebau a fydd ar waith yn y dyfodol rhwng Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatrys anghydfodau.

- Os ceir anghydfod, ar ôl dilyn pob un o'r llwybrau hyn i unioni'r mater, dylai'r llythyrau a gyfnewidiwyd gael eu rhoi i ddau Dŷ Senedd y DU cyn cynnal y bleidlais gadarnhaol ar y rheoliadau a wneir o dan Ran 7.[15]

**19.** Mae'r ail ran o'r Cytundeb Dwyochrog yn nodi proses a gynlluniwyd i ymdrin â phenderfyniadau sy'n gysylltiedig â dosbarthiadau Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r broses yn nodi y dylai swyddogion drafod dosbarthiadau arfaethedig, a'u cyflwyno i'r pedwar Gweinidog Amaethyddiaeth yn y DU. Os na ellir dod i gytundeb drwy ddulliau datrys anghydfodau presennol, gellir cyfeirio materion i banel arbenigol i gael cyngor annibynnol. Diben y panel yw paratoi cyngor annibynnol, arbenigol ar y mater sy'n cael ei drafod. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cyngor hwnnw wrth wneud penderfyniad terfynol.[16]

**20.** Mae'r Cytundeb Dwyochrog yn nodi'r canlynol:

> "Agreement of these arrangements reflect the particular, technical nature of WTO rules and is without prejudice to the wider work on dispute resolution which is being taken forward as part of the Intergovernmental Relations Review commissioned by the Joint Ministerial Committee."[17]

**21.** Wrth grynhoi'r cytundeb y daethpwyd iddo ar Ran 7 o'r Bil, mae paragraff 13 o MCD Rhif 2 yn nodi'r canlynol:

> "Yn gryno, felly, mae cyfrifoldeb clir i geisio cytundeb. Fodd bynnag, os na fydd hynny'n bosibl, mae trefniadau cryf sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru fynegi barn. Caiff y trefniadau hynny eu rhoi ar bapur mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn

[15] Cytundeb dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth, 21 Mawrth 2019

[16] Cytundeb dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth, 21 Mawrth 2019

[17] Cytundeb dwyochrog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil Amaethyddiaeth, 21 Mawrth 2019

> dweud hynny ar goedd mewn datganiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin. Mae hwn yn ganlyniad da sy'n rhoi rôl gref a hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ac fe'i sicrhawyd ar ôl llawer o gydweithio effeithiol rhwng y llywodraethau. Mae'n fodel gwerthfawr y gellid ei ddefnyddio mewn meysydd eraill lle mae angen i lywodraethau gydweithredu ac mae'n arwydd o ymrwymiad y ddwy lywodraeth i gydweithio.[18]

**22.** Mae Rhan 10 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rheoliadau, dehongli a maint.

**23.** Diwygiwyd cymal 32 (Rheoliadau) fel y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 32(3)(c) sy'n gwneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu arbed sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd rheoliadau a wneir o dan baragraffau 6(3), 11(5), 12(4), 20(3) a 22(3) o Atodlen 3 hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os defnyddir y pŵer perthnasol, yn rhinwedd adran 32(3)(c), i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu arbed sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol.[19]

**24.** Mae'r Atodiad i MCD Rhif 2 yn nodi rhestr o bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth a roddwyd i Weinidogion Cymru, wedi'u diweddaru o'r MCD gwreiddiol i drafod y diwygiadau a wnaed yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin fel y'u disgrifiwyd yn MCD Rhif 2.[20]

**25.** Mae MCD Rhif 2 yn dweud y canlynol:

> "Mae'n debygol y bydd rhagor o newidiadau'n cael eu gwneud i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, ac wrth iddo fynd ar ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac yn eu plith bydd newidiadau er mwyn ymateb i bwyntiau a godir wrth i Bwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y Bil. Mewn achos o'r fath, bydd Memoranda pellach yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad fel y bo'n briodol. Gwneir argymhelliad terfynol ynglŷn â chydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol unwaith y bydd yr holl welliannau wedi cael eu gwneud i'r Bil."[21]

---

[18] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, paragraff 13

[19] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, paragraff 23

[20] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, Atodiad

[21] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Amaethyddiaeth, Mawrth 2019, paragraff 31

# Trafod gan Bwyllgor

**26.** Trafodwyd MCD Rhif 2 gennym yn ein cyfarfod ar 13 Mai 2019. Nid oeddem mewn sefyllfa i gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer adrodd.

## Ein safbwynt ni

**27.** Rydym yn nodi safbwyntiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn MCD Rhif 2.

**28.** Rydym yn siomedig nad yw'r Gweinidog wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r casgliadau a'r argymhellion yn ein hadroddiad cyntaf ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth (adroddiad cyntaf). Ar sail ein hasesiad ni, mae'n ymddangos, yn sicr, na weithredwyd ar argymhellion 1, 2, 6 na 9 o'n hadroddiad cyntaf.

**29.** Gwnaeth argymhelliad 5 a pharagraffau 129 i 131 o'n hadroddiad cyntaf sylwadau ar y defnydd o'r weithdrefn negyddol mewn cysylltiad â rheoliadau i'w gwneud o dan baragraff 9(1) o Atodlen 3 i'r Bil. Nid yw'n glir a gynhaliodd y Gweinidog adolygiad o'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth y pwerau i wneud rheoliadau a ddirprwywyd i Weinidogion Cymru (yn unol ag argymhelliad 5 o'n hadroddiad cyntaf) nac a geisiodd ddiwygio'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wnaed o dan baragraff 9(1) o Atodlen 3 (yn unol â pharagraff 130 yn ein hadroddiad cyntaf). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod y Bil, fel y'i diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol y bydd rheoliadau a wneir o dan y paragraff hwnnw – paragraff 11(1) bellach – yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol os defnyddir y pŵer perthnasol i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu arbed sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol.

**30.** Rydym yn tynnu sylw at baragraffau 86 i 111 o'n hadroddiad cyntaf. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod Bil Amaethyddiaeth y DU yn trosglwyddo pwerau helaeth i Weinidogion Cymru i ddatblygu polisi sylweddol ac, wrth wneud hynny, yn atal gwaith craffu manwl gan Aelodau'r Cynulliad. Am y rheswm hwnnw, rydym am ailadrodd y safbwynt a fynegwyd ym mharagraff 110 o'n hadroddiad cyntaf – **nid ydym yn fodlon ar ymagwedd Llywodraeth Cymru at y Bil DU hwn**.

**31.** Er ei bod yn amlwg bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi parhau â'u trafodaethau am ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil ers i ni lunio ein hadroddiad cyntaf, mae'n ymddangos nad yw'r anghydfod ynghylch a oes

angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y darpariaethau hyn wedi'i ddatrys. Roedd argymhelliad 9 o'n hadroddiad cyntaf yn gofyn i'r Gweinidog esbonio pam na fydd yn bosibl diwygio cymal 26 – cymal 28 bellach – o'r Bil i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru. Ymhellach, gofynnwyd i'r Gweinidog esbonio a fyddai'r cytundeb y soniodd amdano'n caniatáu i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig heb waith craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nid ydym, fel y nodwyd uchod, wedi cael unrhyw esboniad o'r fath, ac ni chydnabyddir y mater yn MCD Rhif 2.

**32.** Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r dull llywodraethu y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 28 yn golygu bod Llywodraeth y DU wedi cytuno bod darpariaethau cymal 28 yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Fel y cyfryw, **nid yw'r dull llywodraethu y cytunwyd arno'n cyfateb i broses ceisio cydsyniad**. Am y rhesymau hyn, **rydym yn gofyn pam y mae'r Gweinidog yn fodlon ar y sefyllfa bresennol**. Rydym o'r farn bod cymeradwyaeth y Gweinidog o'r safbwynt negodedig hwn yn arbennig o ddryslyd os yw'r Gweinidog yn dal i gredu bod darpariaethau cymal 28 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn siomedig nad yw'r Gweinidog wedi rhoi rhagor o eglurder ar asesiad Llywodraeth Cymru o gymhwysedd deddfwriaethol.

**33.** Ymhellach, rydym yn nodi bod sylwadau'r Gweinidog ar y safbwynt negodedig wedi cynnwys datganiadau megis "mae hwn yn ganlyniad da" a dweud bod hwn yn fodel gwerthfawr ar gyfer y dyfodol. Mae tôn y sylwadau hynny'n ein synnu. **Mae'r sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda chymal 28 – a'r Bil yn ei gyfanrwydd – yn cyflwyno trosglwyddiad pŵer sylweddol sy'n atal y Cynulliad Cenedlaethol rhag dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn ffordd sy'n briodol yn gyfansoddiadol. Nid y Cytundeb Dwyochrog, a negodwyd gan y Gweinidog, fyddai ein model dewisol ar gyfer y dyfodol ac nid ydym yn credu ei fod yn ganlyniad da.**

**34.** Yn ein barn ni, mae'n ymddangos bod y Cytundeb Dwyochrog yn rhoi'r holl bŵer i Lywodraeth y DU. Er gwaethaf y prosesau ar gyfer cydweithredu ac ymgynghori a nodwyd yn y Cytundeb Dwyochrog, yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn cael y gair olaf ar reoliadau drafft. Wrth wneud rheoliadau Rhan 7, Senedd y DU fydd yn cyflawni'r ddyletswydd graffu, er nad yw wedi gwneud hynny ym maes polisi amaethyddiaeth Cymru ers 20 mlynedd, ac nid oes rôl gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, **mae swyddogaeth graffu'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei hosgoi. Rydym yn credu bod hynny'n sefyllfa annerbyniol yn gyfansoddiadol**.

**35.** Yn ein barn ni, nid yw'r Cytundeb Dwyochrog yn rhoi digon o barch i rôl y Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa. Os bydd anghydfod rhwng y Llywodraethau, bydd modd i ddau Dŷ Senedd y DU gyfnewid llythyrau perthnasol. Mae'r broses hon yn cydnabod rôl y Tai hynny wrth graffu ar y rheoliadau a wneir o dan Ran 7 o'r Bil. Fodd bynnag, ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â'r broses gwneud is-ddeddfwriaeth bwysig sy'n gymwys yng Nghymru. Ond, ar ben hynny, mae'n bosibl na fydd yn cael ei hysbysu pan fydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â rheoliadau o'r fath, y mae'n bosibl y bydd gan Lywodraeth Cymru bryderon yn eu cylch. Eto, nid yw hyn yn dderbyniol.

**36.** Ym mis Ionawr 2019, daeth y ddwy ochr i gytuno ar Gytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru (cytundeb rhyng-sefydliadol). Yn ein barn ni, mae'r cytundeb rhyng-sefydliadol yn cynrychioli enghraifft o'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth yn cydnabod eu rolau priodol ac yn cydweithio i ddatblygu trefniadau priodol a fydd yn helpu i hwyluso gwaith craffu cadarn ar ymadawiad y DU â'r UE.

**37.** Mae paragraff 8 o'r cytundeb rhyng-sefydliadol yn nodi bod y "Cytundeb hwn yn ceisio sicrhau bod egwyddorion atebolrwydd Llywodraeth Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a thryloywder o ran bod y perthnasau hyn yn cael eu cynnwys mewn dulliau rhynglywdoraethol diwygiedig". Rydym yn pryderu, mewn perthynas â'r ffordd yr ymdrinnir â'r Bil Amaethyddiaeth rhwng llywodraethau, nad yw'r egwyddorion hyn wedi'u hystyried.

> **Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog roi manylion, yn ei dull gweithredu o ran y Bil Amaethyddiaeth a'r ffordd y mae'n ymdrin ag ef, ei bod wedi cydymffurfio â gofynion y cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, yn enwedig paragraffau 8 a 14 i 17 o'r Cytundeb hwnnw.

**38.** Heb gael rôl graffu, mae'n rhaid rhoi sicrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol y bydd, o leiaf, yn cael ei hysbysu pan wneir rheoliadau pwysig sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, gan gynnwys pan fo anghydfod rhynglywodraethol.

**39.** Mae Rheol Sefydlog 30C yn nodi gofynion mewn amgylchiadau lle y mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio i Weinidogion y DU weithredu mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Rydym yn nodi na fydd Gweinidogion Cymru, yn achos rheoliadau a wneir o dan Ran 7 o'r Bil, yn rhoi cydsyniad i Weinidogion y DU.

> **Argymhelliad 2.** Rydym yn credu y dylid datblygu gweithdrefn sy'n debyg i'r weithdrefn a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog 30C sy'n cydnabod telerau'r

Cytundeb Dwyochrog, ac sy'n gymwys i'r rheoliadau perthnasol a wneir o dan y Bil Amaethyddiaeth, ar ôl iddo ddod i rym.

**40.** Nid yw'r Cytundeb Dwyochrog yn gyfreithiol rwymol ar y naill lywodraeth na'r llall. Fel gyda chytundebau rhynglywodraethol eraill, bydd yn dibynnu ar gydweithrediad parhaus rhwng y llywodraethau hynny. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar gydweithrediad ac, yn y dirwedd wleidyddol bresennol, rydym yn credu bod gennym achos dilys i fynegi pryder ynghylch y ddibyniaeth ar gytundebau o'r fath a'u cynaliadwyedd.

**41.** Rydym wedi bod yn glir mewn adroddiadau blaenorol y bydd ymadawiad y DU â'r UE yn golygu y bydd angen perthnasoedd rhynglywodraethol newydd. Yn ein hadroddiad ynghylch *Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd* (Chwefror 2018), gwnaethom alw am ddiwygiad sylweddol o'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion. Yn ein barn ni, mae'r sefyllfa rynglywodraethol bresennol o ran y Bil Amaethyddiaeth, ac yn benodol ymdrin â rheoliadau ynghylch Cytundeb Amaethyddiaeth Sefydliad Masnach y Byd yn y dyfodol, yn tynnu sylw bod **angen diwygiad cyfansoddiadol yn fwy nag erioed**. Galwodd Argymhelliad 3 o'n hadroddiad ynghylch *Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd* ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion i ddod yn Gyngor tryloyw ac atebol ledled y DU, sy'n gweithredu fel corff sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n ddarostyngedig i ddull datrys anghydfodau annibynnol. **Rydym yn parhau i fod o'r farn bod angen diwygiad sylfaenol ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion, megis yr hyn a gynigiwyd uchod, ar frys**.

**42.** O ran datrys anghydfodau rhynglywodraethol, dywedodd y Gweinidog fod y cytundeb dwyochrog yn pennu dull ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r Cytundeb Dwyochrog, gan ei fod yn ymwneud â gwneud rheoliadau Rhan 7 yn y lle cyntaf, yn dweud, pe na bai cytundeb rhwng y ddwy Lywodraeth, y byddai materion yn cael eu huwchgyfeirio'n unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol sy'n ymdrin â chysylltiadau rhynglywodraethol a chytundebau a fydd ar waith yn y dyfodol rhwng Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch datrys anghydfodau. O ran gweithredu rheoliadau Rhan 7 yn barhaus, mae'r Cytundeb Dwyochrog yn nodi nad yw telerau'r cytundeb yn rhagfarnllyd i'r gwaith ehangach ynghylch datrys anghydfodau a gomisiynwyd gan y Cyd-bwyllgor Gweinidogion. Yn ein barn ni, **mae'n ymddangos bod y Gweinidog wedi cytuno i wneud rheoliadau Rhan 7 yn ddarostyngedig i Femoranda Cyd-ddealltwriaeth rhynglywodraethol presennol, anfoddhaol, gan obeithio y bydd dulliau datrys anghydfodau yn y dyfodol yn diwallu anghenion Cymru yn addas ac yn briodol.** Rydym yn amau'r sail resymegol y tu ôl i benderfyniad o'r fath.

**43.** Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, **felly rydym yn siomedig ynghylch dull gweithredu'r Gweinidog o ran y Bil ac, yn benodol, y safbwynt a fynegwyd ym mharagraff 13 o MCD Rhif 2**.

**44.** Mae ein cyfle i drafod MCD Rhif 2 wedi'i atal gan y diffyg ymateb amserol i'n hadroddiad cyntaf. **Dylai'r Gweinidog ymateb yn ffurfiol i'n hadroddiad cyntaf fel mater o frys**.

**45.** Rydym hefyd yn siomedig nad ydym wedi cael diweddariad ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ei Bil Amaethyddiaeth ei hun. Rydym yn gobeithio y darperir eglurder o'r fath yn natganiad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, yr ydym yn rhagweld y bydd yn cael ei gyflwyno gan y Prif Weinidog ddechrau mis Gorffennaf.